CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD CYNGOR 6 Tachwedd 2018

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng E R Hughes

Cynghorwyr
W T Owen, I C Thomas, B Owen, W L Davies, W R Owen , A Hopcyn , E Lovgreen, C Williams, M Sarnacki, K Jones, C Larsen, J W Parry , K Richards, S Sage, D L Jones

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng R Thomas

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Wnaeth Y Maer dymuno gwellhad buan i Mrs Sian Thomas (gwraig Cyng I C Thomas) yn dilyn llawdriniaeth yn yr ysbyty

12.10.2018	Bore Coffi Ffrindiau Eryri
24.10.2018	Y Maes - Clwb Rotary Bangor - World Polio Awareness Day
5.11.2018	Noson Tan Gwyllt

3. **Datgan Buddiant Personol**

C Williams a D L Jones– Eitem 15 Ysgol Maesincla
C Larsen – eitem 19 CCG
K Jones – Eitem 21 Sul Y Cofio

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 2 Hydref 2018
ii. Pwyllgor Gwaith 16 Hydref 2018

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)
ii. Cafwyd trafodaeth pellach am gyflwr y fynwent a gofynnwyd am dystiolaeth mewn lluniau ac yna derbyn fel rhai cywir a'u mabwysiadu (unfrydol)

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu (unfrydol)

7.Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

8. Adroddiad o Gyfarfod Cadw
Cofnodion Llywio safle Treftadaeth Byd
Penderfynwyd
Ail rhoi ar agenda nesaf yr cyngor gan ceisio cael costau am greu llyfryn fel Conwy ac felly angen amcan costau cyn hynny (unfrydol)

9. **Adroddiad Drafft IRPW**
Penderfynwyd
Ysgrifennu yn gofyn iddynt ystyried bod haws gwneud y taliadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan fod yn creu trafferthion payroll os ydi pobl yn gadael yn ystod y flwyddyn. A gofyn am ateb mewn ysgrifen parthed cymal 13.37 i weld os ydi'n iawn i rhywun sydd mewn swydd uchel yn Cyngor Sir dderbyn swydd Maer a lwfans Maer (gan derbyn na chawn nhw hawlio'r £150). Hefyd nodi bod lwfans y Maer angen mynd trwy payroll ac felly pan ddaw y dogfen terfynol fydd rhaid inni gofio ystyried rhoid un o'r taliadau £500 i'r Maer gan na fydd y £1500 yn ddigonol ar ôl treth . (unfrydol)

10. **Cofnodion Trefi Caerog**
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

11. **Cyngor Gwynedd**

Parthed Cysgu ar y stryd
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

12. **Cyngor Gwynedd**

Parthed Gwahoddiad Taclo Unigrwydd mewn cymunedau 16 Tachwedd
Penderfynwyd
Cyng C Williams yn mynychu fel Cynghorydd sir ac yn fodlon adrodd yn nol (unfrydol)
13. **National Grid**

Gorchymyn caniatâd Datblygu arfaethedig
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

14. **Cyngor Gwynedd**
Grant Age Cymru
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth a'i rannu fel yn briodol (unfrydol)

15. **Cyngor Gwynedd**
Parthed Llywodraethwyr Ysgol Maesincla
Penderfynwyd
Ethol Cynghorydd B Owen (7 o blaid)
(aeth Cyng C Williams a Cyng D Jones allan i'r ystafell)

16. **Cyngor Gwynedd**

Parthed Oriel Pendeitch
Penderfynwyd
Hapus iawn i gytuno ond i'r clerc dderbyn barn cyfreithiol cyn iddi cario mlaen efo hawl i weithredu (13 o blaid a 3 ymatal)

17. **CAB**

Cyfarfod Blynyddol
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

18. **Rhybudd o Gynnig Cynghorydd W L Davies**
Penderfynwyd
Diweddariad yn nodi bod y gwaith wedi cychwyn ,angen holi os ydi'r cerrig gwreiddiol yn mynd yn ôl er mwyn gweddu (unfrydol)

19. Cyngor Gwynedd
Parthed Hen safle Ysgol yr Hendre
Penderfynwyd
Awgrym 1 – Stad Yr Hen Ysgol
Awgrym 2 – Bro Hendre

20. **Adroddiad o gyfarfod cyhoeddus Parthed Cais Eisteddfod Genedlaethol**
Penderfynwyd
Cael criw at eu gilydd i ystyried y camau nesaf – A Hopcyn, W L Davies, W T Owen, E R Hughes, C Larsen, C Williams, M Sarnacki, S Sage, B Owen, K Richards , I C Thomas a E Lovgreen yn dymuno bod yn rhan o'r cyfarfod (unfrydol)

21. **Amserlen digwyddiadau Sul y Cofio**
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth gan nodi bod seremoni cannwyll ar y nos Sadwrn am 7 (unfrydol)

22. Cwestiynau
Ydi'r Maer yn ymwybodol bod oddeutu 7000 o bobl wedi mynychu'r noson tan gwyllt ? nagoedd ond diolch am y wybodaeth

Ydi'r system gwres wedi trwsio – do

Eitem Eithriedig

23. **Parthed Y Siop**
Gwaharddwyd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer y trafodaeth yma
Penderfynwyd
Derbyn cynnig Cyngor Gwynedd am £650 y clerc i drefnu les yn briodol (unfrydol)

Chafodd y wasg a cyhoedd dod nol mewn yn dilyn y drafodaeth
Gorffennodd y cyfarfod am 7.05

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....